Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cefnllys

Lôn Cefnllys
Llandrindod
Powys
LD1 5WA

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Cefnllys

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cefnllys |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 198 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 21.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 12.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 13.6% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Na |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | Rhagfyr 2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Cefnllys yn ysgol ofalgar ac uchelgeisiol yng nghanol ei chymuned. Mae arweinwyr yn rhoi lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith tra'n cynnal disgwyliadau clir ar gyfer dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi ac yn barod i ddysgu. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ac yn darparu cymorth a her effeithiol. Maent yn cael eu cynnwys mewn monitro gwaith yr ysgol ac yn sicrhau bod cyllid, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, yn cael ei ddefnyddio'n ofalus i gefnogi cynnydd disgyblion a lleihau effaith tlodi.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ystyriol ac yn rhoi pwyslais cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol fel cynhwysiant a datblygu Cwricwlwm i Gymru. Mae dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac yn helpu staff i wella'u harfer a datblygu medrau arweinyddiaeth. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder arbennig. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd digynnwrf a chynhwysol lle mae disgyblion ag ADY, yn cynnwys y rhai yn y dosbarthiadau arbenigol, yn gwneud cynnydd cadarnhaol ac yn datblygu hyder ac annibyniaeth.

Mae gwaith yr ysgol i gefnogi disgyblion bregus, yn cynnwys disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal a disgyblion sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar, yn gryfder. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt i ymgysylltu â dysgu. Mae trefniadau diogelu yn gryf, ac mae staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda.

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu esboniadau clir ac yn cynllunio profiadau dysgu difyr sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae gan yr ysgol ddiwylliant darllen cryf, ac mae disgyblion yn datblygu'n eithriadol o dda i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth dda o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, ac mae llawer o ddisgyblion yn datblygu hyder yn defnyddio'r Gymraeg.

Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen parhau i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd ar draws ystod ehangach o brofiadau dysgu sy'n adlewyrchu Cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, er bod arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau i gefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth, mae cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau yn rhy uchel o hyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau

A2 Parhau i gryfhau cwricwlwm yr ysgol i ddarparu profiad ehangach a chefnogi datblygiad medrau disgyblion ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Cefnllys yn ysgol sydd yng nghanol ei chymuned. Rhoddir y brif ystyriaeth i ddisgyblion yn yr holl benderfyniadau a wneir, ac mae dull dyheadol yr ysgol yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer eu dyfodol. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles disgyblion yn briodol tra'n cynnal disgwyliadau clir ar gyfer dysgu, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi ac yn barod i ddysgu.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol i arweinwyr. Trwy eu hymglymiad mewn hunanwerthuso a monitro, maent yn cynnal ffocws clir ar wella'r ysgol ac yn chwarae rôl weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i reoli cyllid, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion, i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella ac yn lleihau effaith tlodi ar ddysgu a phrofiadau disgyblion.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a sefydlwyd yn ddiweddar yn gweithio'n gydlynus, gyda rolau wedi'u diffinio'n glir a gweledigaeth ar y cyd i feithrin dysgwyr hyderus, gofalgar a medrus a galluog. Trwy ddull hynod gydweithredol o adolygu a mireinio ansawdd addysgu a dysgu, maent yn gwerthuso effaith gwaith yr ysgol ar ddeilliannau disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynnal ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarnhaol mewn dysgu.

Mae dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac wedi'i gynllunio'n dda. Mae cyfleoedd i arsylwi arfer effeithiol a chymryd rhan mewn gweithgareddau monitro ar y cyd yn cryfhau hyder staff. Yn bwysig, mae arweinwyr yn caniatáu i staff yr amser sydd ei angen i wreiddio newid yn ddiogel. Mae dysgu proffesiynol wedi cael effaith nodedig ar wella cysondeb addysgu a chryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn sicrhau bod nodi, monitro a chymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn mynd i'r afael â'u hanghenion dysgu, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu ar draws yr ysgol yn creu diwylliant digynnwrf, cefnogol a hynod gynhwysol lle mae staff medrus yn ymatebol i anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY, yn cynnwys y rhai yn y dosbarthiadau arbenigol, yn gwneud cynnydd cadarnhaol o'u mannau cychwyn, yn gwella'u hymgysylltu, ac yn datblygu eu hannibyniaeth.

### Ciplun: Cefnogi disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal a disgyblion sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar

Mae gwaith yr ysgol i gefnogi disgyblion bregus yn eithriadol o dda. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddofn o effaith trawma ac yn defnyddio dull tosturiol i gefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth. Maent yn datblygu perthnasoedd gwaith gwerthfawr ag asiantaethau allanol i gefnogi'r rhai sy'n profi gorbryder neu heriau ymddygiadol. Mae ffocws mewnweledol a strategol ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal a disgyblion sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn galluogi'r ysgol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu tra'n blaenoriaethu eu diogelwch a'u lles. Mae hon yn ysgol lle mae staff a llywodraethwyr yn creu cwricwlwm o amgylch disgyblion bregus sy'n eu cefnogi i wella a dysgu ar yr un pryd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Mae staff, yn cynnwys y rhai yn y dosbarthiadau arbenigol, yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn ymateb yn briodol i bryderon. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i fonitro presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae cyfraddau absenoldebau parhaus a gwaharddiadau yn rhy uchel.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm pwrpasol sy'n adlewyrchu natur gyfannol Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cyfuno meysydd y cwricwlwm, fel gwyddoniaeth a'r dyniaethau, yn fedrus i greu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ysbrydoli disgyblion. Mae profiadau dysgu wedi eu cynllunio'n ystyriol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl a medrau datrys problemau ac yn eu helpu i gynllunio a threfnu eu gwaith. Mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau mewn meysydd fel y celfyddydau neu i ennill dealltwriaeth ddofn o themâu fel amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth foesegol, gymdeithasol a moesol. Mae athrawon yn galluogi disgyblion i archwilio credoau a gwerthoedd. O oedran ifanc, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg ac effaith eu gweithredoedd ar bobl eraill. Mae gwasanaethau a digwyddiadau ysgol gyfan yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth, a dangos gofal ac ystyriaeth am bobl eraill.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, sy'n meithrin balchder yn eu hardal leol a Chymru. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn raddol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus i orchmynion a chwestiynau cyfarwydd, ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion syml yn briodol mewn gwersi. Mae'r Criw Cymreig yn hynod frwdfrydig am hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o annog disgyblion i goleddu'r iaith.

Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio profiadau dysgu sy'n briodol o heriol yn gyson. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion ac yn gosod bwriadau dysgu pwrpasol. Maent yn cefnogi disgyblion yn effeithiol, yn rhoi enghreifftiau a meini prawf llwyddiant defnyddiol, ac yn gofyn cwestiynau sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd. Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau addas at eu dysgu ac yn aml yn nodi eu camau nesaf eu hunain. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn darparu adborth sy'n cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith, a'i wella, a datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiben eu dysgu.

### Ciplun: Datblygu dysgwyr annibynnol

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cydweithio'n bwrpasol, yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau mewn ystod o gyd-destunau. Mae disgyblion iau yn gyfforddus o ran archwilio'u hamgylchedd yn rhydd. Maent yn rhannu ac yn esbonio'u dysgu yn frwdfrydig, ac yn barod i ddisgrifio'r hyn y maent yn gallu a ddim yn gallu ei wneud, gan alw eu dysgu i gof dros gyfnod, a'i gysylltu â'u profiadau eu hunain. Mae disgyblion hŷn yn dylanwadu'n rheolaidd ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth. Mae'r disgyblion hynaf yn asesu a thrafod eu dysgu yn hyderus ac yn ymateb i feirniadaeth yn ystyriol.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd, a dangos eu cymhwysedd digidol yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith cryf sy'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu siarad a'u gwrando. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu anffurfiol a ffurfiol sy'n galluogi disgyblion i wrando'n dda a siarad â hyder o oedran ifanc. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ysgrifennu at ystod o ddibenion, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus, yn glir ac yn greadigol. Mae gan yr ysgol ddiwylliant darllen cyfoethog gyda llyfrgell agored a deniadol sydd â lle amlwg yng nghanol yr ysgol. Mae bron pob un o'r athrawon yn dewis testunau sy'n ysbrydoli dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymhyfrydu mewn llyfrau â lluniau ac yn ail-ddweud storïau cyfarwydd yn frwdfrydig. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dyfalbarhau â thestunau heriol ac yn defnyddio ystod o fedrau darllen uwch i gefnogi eu dysgu. Yn y dosbarthiadau arbenigol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu yn dda trwy wneud defnydd cyson o dechnoleg gynorthwyol, arwyddion a symbolau, sy'n cynyddu eu cyfranogiad mewn dysgu.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau ac yn trosglwyddo'u medrau i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu medrau digidol, ar y cyfan, ac yn aml yn defnyddio'r rhain yn bwrpasol i ymestyn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026